# Gwasg y Cymoedd

## HUW WALTERS a phapurau Rhydaman

ERBYN wythdegau'r ganrif ddiwethaf yr oedd twf y boblogaeth ym Mlaenau Cwmtawe a dyffryn Aman wedi creu cynulleidfa o ddarllenwyr ar gyfer y Wasg Gymraeg.

Ar 22 Ionawr 1884 ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r **Gwladwr Cymreig** fel newyddiadur wythnosol a'i bris yn geiniog. Ond ni bu'r papur yn llwyddiant, a dichon mai'r rheswm am hynny oedd ei ogwydd gorlenyddol.

Bedair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach, yn Ionawr 1898 cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o **Llais Llafur** o wasg Ebenezer Rees, ac er mai anodd fu'r blynyddoedd cyntaf, yr oedd y **Llais** wedi ei hen sefydlu.

* * *

FODD bynnag, yr oedd amryw o drigolion dyffryn Aman o'r farn erbyn hyn bod y cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth maes y glo carreg yn cyfiawnhau cyhoeddi papur newydd yn Rhydamam. Yr oedd Gwilym Vaughan, brodor o Aberdâr, eisoes wedi agor swyddfa argraffu yn y dref yn y nawdegau cynnar.

Ganwyd ef yn Seymour Street, Aberdâr, ym mis Gorffennaf 1869 yn fab i William ac Ann Vaughan. Yr oedd y fam yn un o ferched y Parchedig Evan Morgan Evans, gŵr o Lanfihangel Genau'r-glyn yng Ngheredigion a symudodd i Aberdâr yn 1840 lle bu'n adeiladydd yng ngweithfeydd haearn Abernant. Bu hefyd yn pregethu ac urddwyd ef yn weinidog yn Soar, Eglwys yr Annibynwyr ym Mhenderyn yn 1866.

Symudodd i Kendal, Westmorland yn 1873 pan benodwyd ef i oruchwylio'r gwaith adeiladu yn Lowbridge House, un o gartrefi Richard Fothergill, y meistr haearn, ond dychwelodd i Aberdâr yn ddiweddarach, ac yno y bu farw yn 1882.

Prentisiwyd ei ŵyr, Gwilym Vaughan, yn swyddfa argraffu Walter Lloyd, perchennog y **Gwladgarwr**, a gwyddys hefyd iddo weithio am gyfnod yn swyddfa **Tarian y Gweithwyr.** Erbyn 1893 fodd bynnag, yr oedd yn byw ym Mrynaman ac wedi dechrau argraffu yn nhref Rhydaman.

Bum mlynedd yn ddiweddarach priododd â Sarah Jones, un o chwiorydd Gwilym R. Jones, y cerddor o Frynaman.

* * *

FEL Ebenezer Rees yn Ystalyfera, bu Gwilym Vaughan yn argraffu llyfrynnau a blodeugerddi o waith prydyddion y fro, ac yn 1909 cafodd y syniad o sefydlu papur newydd i wasanaethu'r ardal. Ymddangosodd yn rhifyn cyntaf o'r **Amman Valley Times** o'i swyddfa ar 15 Mai y flwyddyn honno, ond methiant llwyr fu'r fenter, a chyhoeddwyd y rhifyn olaf ar 24 Rhagfyr yr un flwyddyn.

Cafwyd ymgais arall at sefydlu newyddiadur lleol yn nyffryn Aman yn 1913 drwy ymdrechion rhai o wŷr busnes amlycaf tref Rhydaman, ac ar 24 Gorffennaf y flwyddyn honno ymddangosodd **The Amman Valley Chronicle** am y tro cyntaf o swyddfa Gwilym Vaughan.

Brodor o Bontypridd oedd T. Awstin Davies, golygydd cynta'r papur, yntau'n fab i'r Parchedig Benjamin Davies, gweinidog gyda'r Bedyddwyr a pherchennog **The Pontypridd Chronicle.** Daeth Awstin i Rydaman o Aberhonddu lle bu'n olygydd **The Brecon and Radnor Express** ond yr oedd eisoes wedi dod i'r amlwg fel newyddiadurwr gyda'r **Western Mail.**

Ef yn anad neb arall a ddaeth ag enw Evan Roberts i sylw'r genedl am y tro cyntaf, a bu'n dilyn y diwygiwr ar hyd a lled cymoedd y de yn ystod gaeaf 1904-05 yn paratoi adroddiadau am y diwygiad ar gyfer y wasg. Penodwyd Gwili, olynydd Watcyn Wyn fel prifathro Ysgol y Gwynfryn yn Rhydaman fel golygydd Cymraeg y Papur.

Yn ôl y rhai a'i cofiai yr oedd Gwilym Vaughan yn gymeriad lliwgar. Cododd dŷ hardd iddo'i hun ym Mrynaman, a daeth ei gartref yn ganolfan i nifer o feirdd y gymdogaeth.

Ond yn niwedd mis Ionawr 1915 llosgwyd y swyddfa argraffu yn Rhydaman i'r llawr a chyfanswm y golled yn £8,000. Aeth Gwilym Vaughan i ddyled a gadawodd yr ardal yn 1917 i weithio yn swyddfeydd argraffu'r llywodraeth yn Llundain. Dychwelodd i Frynaman yn 1924 pan benodwyd ef yn brif oruchwyliwr swyddfa argraffu Parry a Thomas yn Abertawe, a bu farw bedair blynedd yn ddiweddarach.

* * *

BYR fu cysylltiad Gwilym Vaughan â'r **Amman Valley Chronicle,** ond ail-agorwyd y swyddfa ym Medi 1915, a chyhoeddwyd **Y Chronicle** yno'n wythnosol hyd 1959. Yng ngholofnau'r papur hwn y cafodd amryw o brydyddion a llenorion dyffryn Aman y cyfle cyntaf i gyhoeddi eu cyfansoddiadau.

Yn eu plith yr oedd Amanwy, a fu'n cadw 'Colofn Cymry'r Dyffryn' yn y papur o 1927 hyd ei farw yn 1953, a cheir ynddi stôr o wybodaeth i'r hanesydd lleol a chymdeithasol. Amanwy hefyd a gymhellodd y Gomer Roberts ifanc i ysgrifennu i'r wasg leol, a bu yntau'n gyfrannwr cyson i'r papur o'r dauddegau cynnar. Mae ei golofn 'Hanes a Hynafiaeth' a gyhoeddwyd yn y **Chronicle** o 1936 hyd 1959 yn werthfawr i bwy bynnag sydd am olrhain hanes maes y glo carreg.

Sefydlwyd **The South Wales Guardian** yn Rhydaman yn 1955, a J. Gwynne Evans, gŵr o Gaerfyrddin yn olygydd iddo. Unwyd y **Chronicle** a'r **Guardian** bedair blynedd yn ddiweddarach, ac yn 1960 ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r **West Glamorgan Chronicle** fel chwaer bapur. Ymhlith colofnwyr Cymraeg **The South Wales Guardian** gellir rhestru Emlyn Aman, E. Llwyd Williams a T.J. Davies.

Prynwyd Cwmni'r **South Wales Guardian** gan Courier Press Holdings o Leamington Spa yn mis Gorffennaf 1979, a chaewyd y swyddfa argraffu yn Rhydaman ym Medi 1981. Bellach argreffir yr unig newyddiadur sy'n gwasanaethu ardal dyffryn Aman yn Hwlffordd.

# BEDWYR LEWIS JONES ar CYFRES Y CEINION

DARLLEN atgofion D.R. Daniel am Owen M. Edwards yr oeddwn pan ddigwyddais sylwi ar gyfeiriad at Gyfres y Ceinion.

Yr adeg yr oedd Daniel yn sôn amdani, roedd Owen Edwards yn ddyn ifanc ugain oed yn lletya ar aelwyd John Roberts yn Bridge Cottage yn y Bala. Yn awr, roedd gan John Roberts frawd o'r enw David a oedd yn werthwr llyfrau crwydrol, a byddai'r pacmon hwn yn aros ar ei hald yn Bridge Cottage. Y troeon hynny, meddai Daniel, byddai Owen Edwards yn cael modd i fyw yn prowla yn sgrepan lyfrau David Roberts. Ac un o'r pethau a aeth â'i fryd yn honno oedd cyfrolau newydd swllt yr un Cyfres y Ceinion.

Ond beth oedd Cyfres y Ceinion? Doedd gen i ddim cof imi erioed sylwi arni. I Lyfrgell Coleg Bangor â mi, felly, i chwilota hyd y silffoedd agored, a phlagio a phoeni'r Llyfrgellydd Cymraeg, Rheon Pritchard wrth wneud hynny.


Un o fentrau cyhoeddi Isaac Foulkes, Lerpwl oedd Cyfres y Ceinion. Fe'i lansiwyd ganddo yn 1877 gydag argraffiad newydd hwylus o *Helyntion Bywyd Hen Deiliwr* Gwilym Hiraethog – 'Pris, mewn Amlen, 1s; mewn Llian, 2s'.

Yn ail yn y gyfres, yn yr un flwyddyn, daeth ail argraffiad o *Gardd Eifion* Robert ap Gwilym Ddu. Yna'r flwyddyn wedyn, 1878, wele dair cyfrol arall, – *Llythurau yr Hen Ffarmwr a Chyfrinach yr Aelwyd* yn drydedd a phedwaredd yn y gyfres, a chyda hwy, yn bumed, *Goronwy Owen* – 'holl waith barddonol y prifardd enwog, hanes ei fywyd, a *facsimile* o'i lawysgrifen o lyfr y plwyf yn eglwys Walton'. Yn 1879 daeth tair cyfrol eto, – *Gwaith Beirdd Mon*, sef yn bennaf Lewis Morris, gwaith barddonol Alun, a chyfrol *Yr Hen Bererinion*, sef hanes bywyd Richard Jones, Llwyngwril, Rhys Dafis y Glun Bren, ac Edmund Jones, Pontypŵl.

Dyma'r llyfrau a welodd Owen M. Edwards yn sgrepan David Roberts, cyfrolau destlus a hylaw, rhyw 120 i 150 o dudalennau, am swllt mewn clawr papur. Ai'r rhain, tybed, a blannodd yr hedyn a arweiniodd yn y man at Gyfres y Fil?

Ychwanegodd Isaac Foulkes gyfrolau eraill at Gyfres y Ceinion yn nechrau'r wythdegau, – yn eu plith *Pigion Englynion Fy Ngwlad* Eifionydd yn ddwy gyfrol. Cadwodd at y gyfres mewn fformat newydd ar ôl hynny hefyd, gan ailgyhoeddi hen ffefrynnau ac ychwanegu cyfrolau newydd.

# RHIDIAN GRIFFITHS a phop rhyfeloedd




PRIN YW'R caneuon Cymraeg y gallwn eu cyfrif yn ganeuon rhyfel, diolch mae'n siŵr i'n traddodiad heddychol. Ond bu gan Gymry eu rhan mewn llunio caneuon cofiadwy cyfnod rhyfel. Dau frawd o Lanelwy, er enghraifft, a fu'n gyfrifol am *Pack up your troubles*, a genid i dramp cyson y milwyr yn Ffrainc yn '14-18. O dan enw priod Felix Powell yr ymddangosodd y gerddoriaeth, ond priodolwyd geiriau ei frawd George i 'George Asaf' – teyrnged i fan geni'r ddau.

Cân arall a atseiniodd i bedwar ban yn y cyfnod hwn oedd 'hit cyntaf' y cyfansoddwr o Gaerdydd, Ivor Novello, *Keep the home fires burning*. Yn ôl tystiolaeth gyfoes hon oedd y gân ryfel gyntaf yn 1914-18 i ennill poblogrwydd cyffredinol, ac fe'i disgrifiwyd gan y **Daily Mail** yn 1915 fel *Battle Hymn*' y rhyfel. 21 oed oedd Ivor Novello pan luniodd hon.

Ei fam, yr enwog Clara Novello Davies, oedd yn awyddus iddo sgrifennu cân wladgarol, ond gwrthododd yntau. Pan luniodd Mam ei chân ei hun, fodd bynnag, barnai Ivor fod honno'n rhy erchyll i'w chyhoeddi, ac aeth ati i gyfansoddi, gan ddechrau gyda'r dôn. Ef hefyd sy'n gyfrifol am y cymal '*Keep the home fires burning*', ond cyfeilles i'w fam, yr Americanes Lena Guilbert-Ford a sgrifennodd weddill y geiriau.

Fe'i canwyd gyntaf yn Llundain cyn diwedd 1914 gan Gymraes ifanc o'r enw Sybil Vane.

Aeth y gân dros y môr a dod yn ffefryn gan y milwyr. Recordiwyd hi'n llwyddiannus gan John McCormack a chyfieithodd Eifion Wyn hi i'r Gymraeg.

* * *

ER NA all Cymru hawlio llwyddiant tebyg yn 1939-45, roedd o leiaf un o ganeuon poblogaidd y cyfnod yn waith Cymro nas cofir erbyn hyn. Yn y ffilm **Shipyard Sally** (1939) canodd Gracie Fields gân o waith ei chyfeilydd, *Wish me luck as you wave me goodbye*, a daeth y gytgan honno eto'n bur adnabyddus wrth i fechgyn a merched fynd i ryfel. Harry Parr-Davies oedd y cyfeilydd hwnnw, a bu'n gyfrifol am eraill o ganeuon Gracie Fields gan gynnwys honno a roes deitl i'w hunangofiant hi, *Sing as we go*.

Ganed Harry Parr-Davies yn y Rhondda yn 1914 a chafodd ei addysg fore yn Nhreherbert cyn i'r teulu symud i Gastell Nedd. Amlygodd ddoniau cerddorol yn ifanc, a chafodd gefnogaeth Syr Walford Davies. Cyhoeddodd nifer o ganeuon pan oedd yn ei arddegau, a rhyw ddeunaw ydoedd pan ddaeth yn gyfeilydd i Gracie Fields.